



# Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol

Adroddiad Ymchwil  
2025-2026

Chwefror 2025

## **,Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

### **Tystiolaeth a Data i lywio Penderfyniadau ar gyfer 2025 i 2026**

#### **Diben**

- Mae'r ddogfen hon yn darparu data ac ymchwil i ategu dyfarniadau'r Panel ar gydnabyddiaeth ariannol cynghorwyr ar gyfer blwyddyn ariannol 2025 i 2026.
- Wrth wneud ei ddyfarniadau dylai'r Panel sicrhau bod y canlyniadau yn fforddiadwy ac yn dderbyniol i awdurdodau a'r cyhoedd Mae'r canlynol yn gwestiynau allweddol:
  - A ddylai'r panel uwchraddio'r lwfansau ai peidio?
  - Os penderfynir uwchraddio'r lwfansau, a ddylid defnyddio Arolwg Blynyddol o Orlau ac Enillion, neu gymharydd arall?

#### **Cyfraddau Cydnabyddiaeth Ariannol Presennol a Drafft**

- Mae Atodiad 1 yn cynnwys dyfarniadau blaenorol ar gydnabyddiaeth ariannol a chynigion drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2025 i 2026 ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol.
- Yr Arolwg Blynyddol o Orlau ac Enillion yw'r ffynhonnell data a ddefnyddir ar hyn o bryd gan y Panel i uwchraddio lwfansau. Mae ffynonellau data eraill wedi'u cynnwys yn yr Atodiad fel meincnodau. Fodd bynnag, y llynedd cytunodd y Panel i ddileu cyflogau'r Mynegai Prisiau Manwerthu, NJC Pwynt 20 a chyflogau Aelodau Seneddol sydd wedi'u defnyddio'n flaenorol ond cytunodd i ychwanegu taliadau i aelodau etholedig llywodraeth leol yn yr Alban fel cymhariaeth ychwanegol.

#### **Tystiolaeth Ategol**

- Mae'r adran hon yn ystyried amrywiaeth o dystiolaeth a all lywio penderfyniadau'r Panel ar ddyfarniadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2025 i 2026, sef:
  - Arolwg Blynyddol o Orlau ac Enillion
  - Codiadau Cyflog yn y Sector Cyhoeddus/Preifat
  - Chwyddiant
  - Cydnabyddiaeth Ariannol Cynghorwyr yn yr Alban
  - Llwyth gwaith cynghorwyr
  - Ymwybyddiaeth Cynghorwyr o Gydnabyddiaeth Ariannol a'u Hagweddau Tuag Ati
  - Cyfraniad at Nodau Polisi (Amrywiaeth ac Iechyd Democrataidd)

## Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion

- Caiff ystadegau Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion eu cyhoeddi bob blwyddyn gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) a'u dynodi'n Ystadegau Gwladol. Er mwyn cael ei ddynodi'n Ystadegyn Gwladol, rhaid i gynnyrch ystadegol gael ei asesu yn erbyn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau er mwyn cadarnhau ei fod yn cydymffurfio ag ef. Caiff ystadegau swyddogol yr asesir eu bod yn cydymffurfio'n llwyr â'r Cod (hynny yw, eu bod yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth) eu dynodi'n Ystadegau Gwladol.
- Mae Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn darparu gwybodaeth am lefelau, dosbarthiad a chyfansoddiad enillion a delir ac oriau a weithir ar gyfer cyflogeion ym mhob diwydiant a galwedigaeth ledled y DU.
- Er ei bod yn bosibl dadansoddi dosbarthiad enillion yn y DU gan ddefnyddio'r Arolwg o'r Llafurlu, ystyrir bod Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn yn ffynhonnell fwy cywir o wybodaeth am enillion am fod y wybodaeth yn cael ei darparu gan gyflogwyr yn hytrach na chael ei hunangofnodi gan gyflogeion.
- Mae Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn hefyd yn defnyddio sampl fawr ac mae hyn, ar y cyd â'r amrywiaeth o nodweddion unigol a daearyddol sydd hefyd yn cael eu casglu, yn darparu ar gyfer gwaith dadansoddi mwy manwl o gymharu â ffynonellau eraill o ddata enillion.
- Un o brif gyfyngiadau'r data yw nad yw'n cynnwys pobl hunangyflogedig.
- Mae Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn yw'r brif ffynhonnell o ddata a ddefnyddir ar gyfer sawl amcangyfrif sy'n ymwneud â chyflogau yn SYG a Llywodraeth Cymru (gan gynnwys y dangosydd cenedlaethol ar y blwch cyflog rhwng y rhywiau).<sup>1</sup>


## Tueddiadau Cyflog yn y Sector Cyhoeddus/Preifat

- Ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2024, mae twf enillion rheolaidd cyfartalog blynyddol ar gyfer y sector cyhoeddus yn parhau i fod yn gryf ar 6.0%, er ei fod yn is na'r cyfnod blaenorol o dri mis (6.4%). Ar gyfer y sector cyhoeddus y ffigur hwn oedd 5.2% a'r tro diwethaf roedd twf yn is na hyn oedd yn y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Mai 2022 (5.1%).

---

<sup>1</sup> [Llywodraeth Cymru, 2023. Arolwg Blynyddol o oriau ac enillion: 2023.](#)

**Ffigur 1. Twf blynyddol enillion wythnosol cyfartalog ar gyfer cyfanswm cyflog (gan gynnwys cartrefi) a chyflog rheolaidd yn ôl y sector cyhoeddus a'r sector preifat ym Mhrydain Fawr, wedi'u haddasu'n dymhorol. Ion-Mawrth 2001 i Ebr-Mehefin 2024.**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad y SYG o'r Arolwg Misol o Gyflogau, 2024.<sup>2</sup>*

- Mae twf enillion rheolaidd cyfartalog blynyddol ar gyfer y sector preifat yn parhau i fod yn gryf ar 6.0% rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2024, er ei fod yn is na'r cyfnod blaenorol o dri mis (6.4%). Ar gyfer y sector preifat, y ffigur hwn oedd 5.2% a'r tro diwethaf roedd twf yn is na hyn oedd yn y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Mai 2022 (5.1%).
- Cyfanswm twf enillion cyfartalog blynyddol ar gyfer y sector preifat oedd 5.0% rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2024, ac 1.9% ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae taliadau bonws untro y GIG a wnaed ym mis Mehefin 2023, pan welwyd y gyfradd cyfanswm twf flynyddol fwyaf ers i gofnodion cymaradwy ddechrau yn 2001, yn effeithio ar y ffigur hwn. Ym mis Mehefin 2024, cofnodwyd gostyngiad o 5.7% yn nhwf cyfanswm enillion blynyddol un mis o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd hyn i'w briodoli i'r diwydiant lechyd a Gwaith Cymdeithasol a gofnododd ostyngiad o 11.8% ym mis Mehefin 2024 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Mae cynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn enillion wythnosol cyfartalog ledled y DU islaw cyfradd chwyddiant. Cyhoeddir data enillion ar gyfer Cymru bob blwyddyn yn Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn. Fodd bynnag, nid yw'r gyfradd chwyddiant ar gael ar lefel Cymru.

<sup>2</sup> [SYG. 2024. Average weekly earnings in Great Britain: August 2024.](#)

**Ffigur 2. Newid o flwyddyn i flwyddyn yn enillion wythnosol cyfartalog a chwyddiant y DU**



*Ffynhonnell: Dadansoddiad Senedd Cymru o ddata'r SYG, 2024.<sup>3</sup>*


## Chwyddiant

- Nodir isod bwyntiau allweddol sy'n ymwneud â chyfraddau chwyddiant:
  - Cynyddodd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr 3.1% yn ystod y 12 mis hyd at fis Gorffennaf 2024, o gymharu â chynnydd o 2.8% a welwyd ym mis Mehefin 2024.<sup>4</sup>
  - Ar sail fisol, nid oedd lefel costau tai perchen-feddianwyr wedi newid fawr ddim ym mis Gorffennaf 2024, o gymharu â gostyngiad o 0.3% ym mis Mehefin 2024.
  - Cynyddodd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr 2.2% yn ystod y 12 mis hyd at fis Gorffennaf 2024, o gymharu â chynnydd o 2.0% a welwyd ym mis Mehefin 2024.
  - Ar sail fisol, gostyngodd Mynegai Prisiau Defnyddwyr 0.2% ym mis Gorffennaf 2024, o gymharu â gostyngiad o 0.4% ym mis Gorffennaf 2023.

<sup>3</sup> [Senedd Cymru. 2024. Diweddariad o'r farchnad lafur ym mis Gorffennaf 2024.](#)

<sup>4</sup> [SYG. 2024. Chwyddiant prisiau defnyddwyr, 2024.](#)

**Ffigur 3. Cyfraddau chwyddiant blynyddol Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr, Tai Perchen-Feddianwyr a Mynegai Prisiau Defnyddwyr, y DU, rhwng mis Mehefin 2014 a mis Mehefin 2024**



*Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol – Chwyddiant prisiau defnyddwyr, 2024.*

### **Cydnabyddiaeth Ariannol Cyngorwyr yn yr Alban**

- Llywodraeth yr Alban sy'n pennu cyflog sylfaenol cyngorwyr yn yr Alban ac ni all gael ei amrywio gan gynghorau unigol. Mae Rheoliadau Deddf Llywodraethu Lleol (Yr Alban) 2004 (Cydnabyddiaeth Ariannol) 2007 yn nodi'r fframwaith ar gyfer talu cyflog i gynghorwyr.<sup>5</sup>
- Ers mis Mai 2017, mae cyflog cyngorwyr wedi'i chysylltu â chyflog gweithwyr yn y sector cyhoeddus yn yr Alban. Cyhoeddir y wybodaeth hon bob blwyddyn gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn.<sup>6</sup>
- Y cyflog blynyddol sylfaenol ar gyfer cynghorwyr yn yr Alban o 1 Ebrill 2023 yw £21,345 (yn unol â pholisi Llywodraeth yr Alban ar rolau, ymddygiad a chyflog cynghorwyr, <sup>7</sup>fel y'u nodir yn Rheoliadau Diwygio Deddf Llywodraethu Lleol (Yr Alban) 2004 (Cydnabyddiaeth Ariannol) 2022).<sup>8</sup>
- Mae'r Rheoliadau yn bandio cynghorau gan ddefnyddio sawl ffactor gan gynnwys maint cyllideb y cyngor. Mae'r rheoliadau hefyd yn nodi wedyn bedair gradd o gynghorydd at ddibenion talu cydnabyddiaeth ariannol, sef.

<sup>5</sup> [Rheoliadau Deddf Llywodraethu Lleol \(yr Alban\) 2004 \(Cydnabyddiaeth Ariannol\) 2007](#)

<sup>6</sup> [Pobl mewn gwaith – y Swyddfa Ystadegau Gwladol \(ons.gov.uk\)](#)

<sup>7</sup> [Rolau, ymddygiad a chyflog cynghorwyr – Llywodraeth leol – gov.scot \(www.gov.scot\)](#)

<sup>8</sup> [Rheoliadau Diwygio Deddf Llywodraethu Lleol \(yr Alban\) 2004 \(Cydnabyddiaeth Ariannol\) 2022 \(legislation.gov.uk\)](#)

- a. Arweinydd y Cyngor.
  - b. Pennaeth Dinesig.
  - c. Uwch-gynghorwyr;
  - d. Cynghorwyr.
- Rhaid i Arweinydd y Cyngor a'r Pennaeth Dinesig fod yn ddau berson gwahanol, at ddibenion talu cydnabyddiaeth ariannol.
  - Nodir y cyfraddau ar gyfer y cyfnod rhwng 2023 a 2024 yn Nhabl 1 isod:

**Tabl 1. Cyfraddau Cyflog Arweinwyr Cynghorau a Phenaethiaid Dinesig ar gyfer yr Alban, 2023 i 2024**

| Band y cyngor | Cyflog yr Arweinydd | Cyflog y Pennaeth Dinesig |
|---------------|---------------------|---------------------------|
| A             | £35,580             | £26,686                   |
| B             | £42,698             | £32,024                   |
| C             | £49,810             | £37,360                   |
| D             | £64,043             | £48,032                   |

*Ffynhonnell: Llywodraeth yr Alban – Rolau, ymddygiad a chyflog cynghorwyr.*

- Nid yw'r Rheoliadau yn pennu'r cyflog ar gyfer uwch-gynghorwyr ond maent yn nodi'r uchafswm (75% o gyflog Arweinydd y Cyngor) a'r isafswm (cyflog sylfaenol cynghorydd) y gellir eu talu i uwch-gynghorydd.
- Mae'r Rheoliadau hefyd yn pennu'r swm mwyaf o arian y gall pob cyngor ei wario ar gyflogau uwch-gynghorwyr. Wedyn, mater i gynghorau unigol yw penderfynu faint y byddant yn ei dalu i uwch-gynghorwyr, y gellir talu symiau gwahanol iddynt.

### **Llwyth gwaith cynghorwyr**

- Mae'r wybodaeth ddiweddaraf o Arolwg Llywodraeth Cymru o Gynghorwyr 2022 yn awgrymu'r canlynol:<sup>9</sup>
  - Roedd bron i hanner yr holl gynghorwyr (47%) yn treulio 10 awr neu lai yr wythnos yn cyflawni eu rôl. Ym mhen arall y raddfa, roedd 8% yn treulio mwy na 40 yr wythnos yn cyflawni eu rôl.
  - Roedd bron i ddau o bob tri chynghorydd cymuned neu dref (69%) yn treulio 10 awr neu lai yn cyflawni eu rôl a dywedodd tua dau o bob pum prif gynghorydd (44%) a chynghorydd dwy het (38%) eu bod yn treulio 31 awr neu fwy yr wythnos yn ymgymryd â busnes y cyngor. O'r ffigurau hyn,

<sup>9</sup> [Cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr ac ymgysylltiad dinasyddion â chynghorwyr: arolwg o gynghorwyr \(crynodeb\) \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

nododd chwarter y prif gynghorwyr (25%) a 17% o gynghorwyr dwy het eu bod yn gweithio mwy na 40 awr yr wythnos.

- Dywedodd dau o bob tri ymatebydd (66%) eu bod ar gael ddydd a nos, saith diwrnod yr wythnos. Dim ond 4% o'r ymatebwyr a nododd fod ganddynt amserau penodedig pryd y gallai etholwyr gysylltu â nhw.
- Pwysleisiodd prif gynghorwyr fod eu rôl a'u llwyth gwaith o ddydd i ddydd yn amrywio'n fawr bob wythnos, yn dibynnu ar natur y gwaith roeddent yn ei wneud (er enghraifft, mynd i gyfarfodydd ffurfiol y cyngor a phwyllgorau, delio â gwaith achos ac ymgysylltu ag etholwyr) a'r math o rolau a oedd ganddynt yn y cyngor.
- Pryder penodol ym mhob categori o gynghorwyr oedd y llwyth gwaith a'r ymrwymadau amser cynyddol yr oedd y rôl yn gofyn amdanynt, gyda llawer yn ei chael hi'n fwyfwy anodd cadw eu rôl yn y cyngor a'u bywyd personol ar wahân. Nododd ymatebwyr hefyd ei bod yn dod yn fwyfwy anodd i gynghorwyr gyflawni eu hymrwymadau gwaith ochr yn ochr â swydd amser llawn.
- Pwysleisiodd cynghorwyr cymuned a thref fod y ffaith eu bod mor amlwg a hawdd mynd atynt yn y gymuned yn eu helpu i reoli eu hymrwymadau amser a'u gwaith o ddydd i ddydd.

**Tabl 2. Orlau a weithiwyd yr wythnos gan Gynghorwyr LLeol yng Nghymru yn 2022, yn ôl math**

| Orlau a Weithiwyd | % y Cynghorwyr Cymuned neu Dref | % y Prif Gynghorwyr | % y Cynghorwyr Dwy Het | % yr Holl Ymatebwyr |
|-------------------|---------------------------------|---------------------|------------------------|---------------------|
| 10 neu lai        | 69                              | 4                   | 7                      | 47                  |
| 11-20             | 23                              | 20                  | 19                     | 22                  |
| 21-30             | 6                               | 32                  | 36                     | 15                  |
| 31-40             | < 2                             | 19                  | 21                     | 8                   |
| Dros 40           | < 2                             | 25                  | 17                     | 8                   |

Sylfaen: 1,282 o ymatebwyr

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru – Cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr ac ymgysylltiad dinasyddion â chynghorwyr: Arolwg o gynghorwyr, 2022.*

### **Ymwybyddiaeth Cynghorwyr o Gydnabyddiaeth Ariannol a'u Hagweddau Tuag Ati**

- Dim ond tua hanner y cynghorwyr tref a chymuned a oedd yn gwybod bod ganddynt hawl i gael taliad sylfaenol ac nid oedd tri chwarter wedi hawlio eu taliad sylfaenol/uwch yn llawn. Roedd y mwyafrif o'r prif gynghorwyr yn gwybod y gallent hawlio cyflog sylfaenol ac wedi hawlio eu cyflog yn llawn.

- Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn gwrthwynebu'r syniad o gynghorwyr yn cael eu talu am eu gwaith ac roedd nifer llai wedi amddiffyn y system bresennol.
- Roedd nifer mawr o ymatebwyr yn gwrthwynebu'r syniad o gynghorwyr yn cael eu talu am eu gwaith am resymau mwy normadol, gyda chynghorwyr cymuned yn arbennig yn pwysleisio bod hyn yn anghydnaws â natur eu rôl. Dadl gyffredin ymhlith y cynghorwyr hyn oedd ei bod yn rôl wirfoddol ac na ddylai cynghorwyr gael eu talu am y 'faint' o wasanaethu eu cymuned.
- Ym mhob categori o gynghorwyr, roedd ymdeimlad cryf hefyd y byddai'n well i unrhyw gyllid a fyddai'n cael ei ddarparu ar gyfer lwfansau a threuliau gael ei wario neu ei ailfuddsoddi mewn cymunedau lleol.
- Er gwaethaf y safbwyntiau hyn, roedd nifer bach o gynghorwyr cymuned wedi amddiffyn y system bresennol ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr gan ddadlau bod rôl cynghorydd cymuned yn arbennig bellach wedi newid o swydd ran-amser ddi-dâl i'r hyn yr oeddent yn ystyried ei bod yn rôl 'wedi'i phroffesiynoli' amser llawn a oedd yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau a chyfrifoldebau.
- Mae talu lwfansau a threuliau yn dal i fod yn destun cynnen ymhlith cynghorwyr a'r cyhoedd.
- Rhoddir rhywfaint o gyd-destun pellach i agweddau cynghorwyr tuag at gydnabyddiaeth ariannol, gan wybodaeth am nifer y cynghorwyr sy'n penderfynu peidio â derbyn eu cydnabyddiaeth ariannol lawn neu ran ohoni. Mae'r Panel yn darparu y gall unigolyn wrthod derbyn, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, os yw'n dymuno gwneud hynny. Rhaid gwneud hyn yn ysgrifenedig a mater i'r unigolyn ydyw.

### **Derbyn ac optio allan o dderbyn taliad 'lwfans £156'**

- O ran cynghorwyr cymuned a thref, rhaid i bob cyngor dalu £156 y flwyddyn i'w aelodau (sy'n cyfateb i £3 yr wythnos) tuag at dreuliau ychwanegol y bydd rhaid i'r aelwyd eu talu (gan gynnwys gwres, golau, ynni a band eang) o ganlyniad i weithio gartref. Cyfeirir at hyn fel arfer fel y "taliad o £156".
- Mae'r tabl isod yn dangos faint o Gynghorwyr a dderbyniodd y taliad o £150 (2019 i 2022, y taliad o £156 (2023 ymlaen) a faint a ddewisodd wrthod y taliad hwn.
- Noder: Dengys rhai ffurflenni 'nil return' ac nid ydynt yn dangos faint o Gynghorwyr na chawsant y taliad o £150 / £156. Edrychodd yr Ysgrifenyddiaeth ar bob gwefan er mwyn nodi faint o Gynghorwyr a oedd yn bresennol ar y Cyngor.

**Tabl 3. Nifer y Cynghorau Cymuned a Thref yn dewis gadael lwfans - Blwyddyn Ariannol 2023 i 2024**

| Blwyddyn    | Optio allan o dderbyn lwfans sylfaenol | Cynnydd neu ostyngiad |
|-------------|----------------------------------------|-----------------------|
| 2019 – 2020 | 3,438                                  | -                     |
| 2020 – 2021 | 4,039                                  | +601                  |
| 2021 – 2022 | 3,830                                  | -209                  |
| 2022 – 2023 | 3,862                                  | +32                   |
| 2023 – 2024 | 3,415                                  | -447                  |

*Ffynhonnell: IRP (24) 521 - Datganiad o Daliadau 2023 i 2024 - Cyngor Cymuned a Thref*

**Tabl 4. Newidiadau blynyddol yn nifer y cynghorwyr a gafod y lwfans o £150 / £156 lwfans**

| Blwyddyn    | Cafwyd y lwfans o £150 / £156 | Newid o'r flwyddyn flaenorol | Dewiswyd peidio â derbyn y lwfans o £150 / £156 | Newid o'r flwyddyn flaenorol |
|-------------|-------------------------------|------------------------------|-------------------------------------------------|------------------------------|
| 2019 – 2020 | 921                           | -                            | 3,438                                           | -                            |
| 2020 – 2021 | 1,098                         | + 177                        | 4,039                                           | +601                         |
| 2021 – 2022 | 1,249                         | + 151                        | 3,830                                           | -209                         |
| 2022 – 2023 | 1,703                         | + 454                        | 3,862                                           | +32                          |
| 2023 – 2024 | 1,975                         | +272                         | 3,415                                           | -447                         |

Ffynhonnell: IRP (24) 426 - Datganiad o Daliadau 2022 i 2023 - Cynghorau Cymuned a Thref ac IRP (24) 521 - Datganiad o Daliadau 2023 i 2024 - Cyngor Cymuned a Thref

Penderfynwyd ar lwfans o £150 rhwng Ebril 2019 i Mawrth 2023  
Penderfynwyd ar lwfans o £156 rhwng Ebril 2023 i Mawrth 2024

- Mae data sy'n ymwneud â chynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol fel a ganlyn:

**Tabl 5. Nifer y cynghorwyr a ddewisodd beidio â derbyn codiad cyflog**

| Blwyddyn ariannol | Cyfanswm y cynghorwyr na wnaethant dderbyn codiad cyflog | Cyflog uwch-gynghorydd | Nifer yr Awdurdodau | Newid o'r flwyddyn flaenorol |
|-------------------|----------------------------------------------------------|------------------------|---------------------|------------------------------|
| 2016 – 2017       | 186                                                      | 71                     | 8                   | -                            |
| 2017 – 2018       | 117                                                      | 86                     | 7                   | -69                          |
| 2018 – 2019       | 72                                                       | 23                     | 11                  | -45                          |
| 2019 – 2020       | 112                                                      | 41                     | 13                  | +40                          |
| 2020 – 2021       | 111                                                      | 37                     | 12                  | -1                           |
| 2021 – 2022       | 36                                                       | 14                     | 10                  | -75                          |
| 2022 - 2023       | 28                                                       | 15                     | 7                   | -8                           |
| 2023 - 2024       | 21                                                       | 12                     | 6                   | -7                           |

*Ffynhonnell: IRP (24)427 Datganiad o Daliadau i Brif Gyngorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub*

## Cyfraniad at Nodau Polisi

### Amrywiaeth

- Ar ôl adolygu tystiolaeth (gan gynnwys arolygon o gynghorwyr sy'n ymadael a'u rhesymau), daeth Pwyllgor Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Senedd i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth uniongyrchol i awgrymu bod cyfraddau cydnabyddiaeth ariannol yn effeithio ar amrywiaeth. Nid yw hynny o reidrwydd yn golygu nad yw cydnabyddiaeth ariannol yn ystyriaeth yn y maes hwn. Yn hytrach, mae a wnelo'n fwy â'r ffaith nad oedd y Pwyllgor yn gallu dod i'r casgliad ei fod yn ffactor yn seiliedig ar y wybodaeth gyfredol.
- Awgrymodd y Pwyllgor y gall cyfraddau yn gyffredinol fod yn rhy isel i ddenu nifer sylweddol o unigolion i ymgeisio am rôl cynghorydd, a allai effeithio ar amrywiaeth ymgeiswyr:
- Mae canfyddiadau adroddiad a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Senedd yn 2019 yn awgrymu, o gymharu â chyflogaeth am dâl draddodiadol, fod cyflog blyneddol sylfaenol prif gynghorwyr yng Nghymru yn rhy isel i ddenu pobl ifanc neu annog mwy o amrywiaeth.<sup>10</sup>

<sup>10</sup> [Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau Senedd Cymru \(2019\)](#)

- Mae'r adroddiad hefyd yn cysylltu'r angen i ddenu cynghorwyr iau â mater cydnabyddiaeth ariannol. Mae rhai dyfyniadau perthnasol gan gynghorwyr sy'n dangos y negeseuon wedi'u cynnwys isod:  
*'Principal and community and town councillors, and dual-hatters all emphasised the need to improve the age, gender and social balance within the councillor population, as these quotes illustrate...  
In making such a call however, some of the barriers that prevented potential candidates from putting themselves forward to stand were identified, including the demands of the role, the type of work involved and the financial aspects of the role.'*

### **Cyfraniad at gostau gofal a chymorth personol – Cynghorau Tref a Chymuned**

- Mae a wnelo un maes lle roedd y Panel wedi ystyried effaith cydnabyddiaeth ariannol ar amrywiaeth â chymorth i gynghorwyr â chyfrifoldebau gofalu ac anghenion o ran cymorth personol. Mae hyn wedi cynnwys ystyried sut y caiff y taliadau hyn eu cyhoeddi yn dilyn tystiolaeth ansoddol a gasglwyd gan y Panel fod cyhoeddi'r taliadau hyn, mewn rhai achosion, yn dod yn fater gwleidyddol i'r fath raddau fel bod unigolion yn cael eu hatal rhag eu hawlio. Mae'r tablau canlynol yn darparu data ar y taliadau a gafodd eu hawlio.

**Tabl 6. Cyfraniad at gostau gofal a chymorth personol – ffigurau cymharol o'r wyth mlynedd diwethaf – cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol**

| <b>Blwyddyn Ariannol</b> | <b>Cyfanswm</b> | <b>Nifer yr Awdurdodau a hawliodd daliadau</b> | <b>Cynnydd neu ostyngiad</b> |
|--------------------------|-----------------|------------------------------------------------|------------------------------|
| 2016 – 2017              | £13,849.42      | 4                                              | -                            |
| 2017 – 2018              | £15,289.00      | 9                                              | +£1,439.58                   |
| 2018 – 2019              | £13,231.00      | 12                                             | -£2,058.00                   |
| 2019 – 2020              | £13,978.64      | 7                                              | +£747.64                     |
| 2020 – 2021              | £8,054.35       | 5                                              | -£5,924.29                   |
| 2021 – 2022              | £6,095.09       | 3                                              | -£1,959.26                   |
| 2022 - 2023              | £7,475.39       | 6                                              | +£1,380.30                   |
| 2023-2024                | £36,876.63      | 5                                              | +£29,401.24                  |

*\*Nododd un awdurdod (Conwy) fod un Aelod wedi hawlio arian i ad-dalu costau gofal ond nid oes unrhyw gyfanswm wedi'i nodi ar y ffurflen.*

*Ffynhonnell: IRP (24)427 Datganiad o Daliadau i Brif Gyngorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac IRP (24) 502- Datganiad o Daliadau i Brif Gyngorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub*

- Mae Cyngorau a restrir isod wedi cyhoeddi taliadau (fel ffigur cyffredinol) ar gyfer y cyfraniad at gostau gofal a chymorth personol

**Tabl 7. Cyfraniadau cyngorau cymuned a thref unigol tuag at gostau gofal a chymorth personol – blwyddyn ariannol 2023 i 2024**

| Council                          | Amount  | Group |
|----------------------------------|---------|-------|
| Cyngor Tref Brenhinol Caernarfon | £107.85 | 3     |
| Cyngor Tref Llanfairfechan       | £228.99 | 4     |

*Ffynhonnell: IRP (24) 502 - Datganiad o Daliadau i Brif Gyngorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub*

- Mae'r niferoedd hyn yn parhau i fod yn fach o gymharu â chyfanswm y cyngorwyr (1,234 o gynghorwyr sir a chynghorwyr bwrdeistref sirol a thua 8,000 o gynghorwyr tref a chymuned) ac yn ganran fach o'r gwariant blyneddol ar gydnabyddiaeth ariannol cyngorwyr a chyfanswm gwariant refeniw cyngorau.<sup>11</sup>

### lechydd Democrataidd

- Casglwyd y data canlynol at ei gilydd gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gynt), a golodd ddata gan awdurdodau lleol. Nid yw'r data wedi'u dilysu ond, am fod yn ffigurau yn fanwl iawn, mae'r lwfans cyfeiliornad yn debygol o fod yn fach iawn
- Isod ceir trosolwg o ganlyniadau cyngorau tref a chymuned yn etholiadau lleol Mai 2022:

**Tabl 8. Seddi ar gynghorau cymuned yn dilyn etholiadau llywodraeth leol 2022, yn ôl math**

|                            | 2017          |       | 2018          |       |
|----------------------------|---------------|-------|---------------|-------|
| Math o Sedd                | %<br>Cyfanswm | Nifer | %<br>Cyfanswm | Nifer |
| Etholedig – Diwrthwynebiad | 64            | 5,075 | 62            | 4,857 |
| Etholedig – A ymladdwyd    | 19            | 1,531 | 22            | 1,770 |
| Heb eu llenwi              | 17            | 1,348 | 16            | 1,256 |
| Cyfanswm                   | 100           | 7,954 | 100           | 7,883 |

<sup>11</sup> IRP (24) 426 Statement of Payments to Community and Town Councils.

- Er mwyn i gyngor cymuned ddatgan ei fod yn gymwys i arfer pŵer cyffredinol cymhwysedd, un o'r amodau y mae'n rhaid iddo ei fodloni yw bod o leiaf ddwy o bob tair sedd wedi'u hethol (naill ai drwy gynnal pleidlais neu'n ddiwrthwynebiad). Yn 2022, bodlonodd tua 70% o'r cynghorau cymuned yr amod hwn. Yn 2017, byddai tua 85% wedi bodloni'r amod hwn.
- Nid oedd gan tua 30 o gynghorau cymuned (4%) gworwm yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol. Mae hyn yn golygu eu bod wedi methu ag ethol tri chynghorydd neu lai na thraean o gyfanswm yr aelodau - pa un bynnag yw'r mwyaf.
- Y ganran a bleidleisiodd yn etholiadau llywodraeth leol 2022 oedd 38%, o gymharu â 42% yn 2017 Mae hyn yn awgrymu lefel isel o gyfranogiad mewn cynghorau cymuned, yn ogystal â lefel isel o ddiddordeb mewn gwasanaethu ar gynghorau cymuned.
- Ar 13 Ebrill 2022, cyhoeddodd Cymdeithas Diwygio Etholiadol Cymru erthygl o dan y teitl: *"Elections Cancelled: Over 100,000 Welsh voters to be denied a vote"*. Nododd yr erthygl fod gwaith dadansoddi newydd gan ERS Cymru yn amcangyfrif na fyddai 106,920 o bleidleiswyr yng Nghymru yn cael lleisio eu barn oherwydd etholiadau diwrthwynebiad.
- Nododd yr erthygl y byddai o leiaf un etholiad diwrthwynebiad yn cael ei gynnal mewn naw o'r 22 o gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru, gydag 28 yn cael eu cynnal yn yr ardal cyngor yr effeithid arni waethaf, sef Gwynedd. Amcangyfrifodd ERS na fyddai 30,722 o bleidleiswyr yng Ngwynedd yn cael dewis rhwng ymgeiswyr oherwydd diffyg cystadleuaeth.
- O'r naw awdurdod lleol a restrwyd yn yr erthygl fel rhai lle y byddai etholiad diwrthwynebiad yn cael ei gynnal, mae pedwar yn awdurdodau yng Ngogledd Cymru:
  - Sir Ddinbych – 1 sedd ddiwrthwynebiad mewn 1 ward
  - Sir y Fflint – 2 sedd ddiwrthwynebiad mewn 2 ward
  - Gwynedd – 28 o seddi diwrthwynebiad mewn 27 o wardiau
  - Wrecsam – 8 sedd ddiwrthwynebiad ar draws 8 ward
- Y pum awdurdod lleol arall sydd a restrwyd yn yr erthygl yw:
  - Sir Gaerfyrddin – 1 sedd ddiwrthwynebiad mewn 1 ward
  - Ceredigion – 5 sedd ddiwrthwynebiad mewn 5 ward
  - Castell-nedd Port Talbot – 3 sedd ddiwrthwynebiad mewn 2 ward
  - Sir Benfro – 19 o seddi diwrthwynebiad mewn 19 o wardiau
  - Powys – 7 sedd ddiwrthwynebiad mewn 7 o wardiau

- Roedd cyfanswm o 74 o seddi diwrthwynebiad mewn 72 o wardiau ledled Cymru.

### **Fforddiadwyedd**

- Darperir y wybodaeth ganlynol er mwyn helpu i lywio trafodaethau'r Panel ynghylch fforddiadwyedd.

### **Cyllid Awdurdod Lleol**

- Ar gyfer blwyddyn ariannol 2022 i 2023 y mae ystadegau cyhoeddedig mwyaf diweddar sy'n ymwneud â chyfanswm gwariant refeniw cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol. Yn 2022 i 2023 cynyddodd cyfanswm gwariant refeniw 5.3% i £10.0 biliwn. Gwariant refeniw y pen oedd £3,219, sy'n cyfateb i gynnydd o £223 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.<sup>12</sup>
- Cyn dirwasgiad 2008 i 2009 a'r mesurau cyni dilynol, roedd cynnydd blynyddol o 5% neu 6% yn cael eu cofnodi'n rheolaidd ond ers 2010 i 2011 dim ond mewn pedair blynedd y cofnodwyd twf uwchlaw 2%, y mae tri ohonynt wedi bod yn y tair blynedd diwethaf.
- Mae hyn wedi cael effaith amrywiol yn dibynnu ar y meysydd gwasanaeth er bod newidiadau mewn dulliau dosbarthu yn golygu y dylid ystyried gwaith dadansoddi yn ofalus. Ar y cyfan, mae gwasanaethau statudol megis addysg a gwasanaethau cymdeithasol wedi'u diogelu (gyda gwasanaethau cymdeithasol yn cofnodi'r cynnydd mwyaf mewn gwariant) ond mae gwariant ar wasanaethau eraill megis llyfrgelloedd, ffyrdd a thrafnidiaeth a chynllunio wedi lleihau yn gyffredinol ers 2010 i 2011. Mae addysg a gwasanaethau bellach yn cyfrif am 67% o gyfanswm gwariant awdurdodau unedol o gymharu â 59% yn 2010 i 2011 a 60% yn 1999 i 2000.
- Mae a wnelo'r wybodaeth gyhoeddedig ddiweddaraf am wariant refeniw rhagamcanol â blwyddyn ariannol 2024 i 2025. Cyfanswm gwariant refeniw wedi'i gyllidebu fel y'i cofnodwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer 2024 i 2025 yw £10.9 biliwn, sef cynnydd o 5.4% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.<sup>13</sup>
- Cofnododd cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol gynnydd o 5.1% neu £467 miliwn yn eu gwariant refeniw wedi'i gyllidebu a chofnododd yr heddlu gynnydd o 8.6%. Cofnododd awdurdodau tân gynnydd o 7.8% a chofnododd awdurdodau parciau cenedlaethol ostyngiad o 2.1%.  
  
Gwynedd sy'n dangos y cynnydd sirol mwyaf mewn gwariant refeniw, sef 10.1%, oherwydd ei rôl fel awdurdod arweiniol ar gyfer grant mawr o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Castell-nedd Port Talbot sy'n dangos y cynnydd lleiaf, sef 0.6%.
- Ym mis Hydref 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fanylion setliad [refeniw a chyfalaf llywodraeth leol 2023 i 2024](#) ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru.

<sup>12</sup> [Gwariant refeniw a gyllidebwyd yn ôl manylion y gwasanaeth \(llyw.cymru\)](#)

<sup>13</sup> [Cyllideb refeniw awdurdodau lleol a rhagolygon gwariant cyfalaf: Ebrill 2024 i Fawrth 2025 \(llyw.cymru\)](#)

## Ffigurau Setliad Cyllid Awdurdodau Lleol ar gyfer 2024 i 2025

- [Cyhoeddwyd ffigurau setliad terfynol ar gyfer 2024 i 2025](#) gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chyllid mewn [datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 27 Chwefror 2024](#).<sup>14</sup> Cadarnhawyd y rhain i Arweinwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru mewn llythyr gan y Gweinidog Llywodraeth Leol ar yr un diwrnod.<sup>15</sup>
- Cynyddodd cyllid craidd ar gyfer llywodraeth leol yn 2024 i 2025 3.3% ar sail tebyg am debyg o gymharu â 2023 i 2024. Ni chafodd yr un awdurdod gynnydd llai na 2.3%.
- Bydd y dyddiad y cyhoeddir setliad nesaf awdurdodau lleol yn dibynnu ar gyhoeddi cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025 i 2026. Bydd cyflwyno cyllideb ddrafft ym mis Rhagfyr yn golygu y caiff dyraniadau'r setliad dros dro ar gyfer llywodraeth leol eu cyhoeddi ym mis Rhagfyr, gyda'r dyraniadau terfynol yn cael eu cyhoeddi ym mis Chwefror neu ar ddechrau mis Mawrth. Fodd bynnag, ni fu unrhyw gyhoeddiadau eto ynghylch dyddiad cyllideb ddrafft na chyllideb derfynol Llywodraeth Cymru. Mae'n bosibl na chaiff y gyllideb derfynol ei phennu tan ar ôl toriad y Nadolig.
- Mae Atodiad 2 yn cynnwys dadansoddiad blaenorol y Panel o gyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol a dalwyd gan Gynghorau yng Nghymru. Mae'r swm hwn yn dal i fod yn ganran fach o gyfanswm gwariant refeniw cynghorau.

## Crynodeb

- Mae'r ddogfen hon wedi darparu amrywiaeth o ddata, tystiolaeth a ffactorau cyd-destunol er mwyn llywio proses gwneud penderfyniadau'r Panel mewn perthynas â'i ddyfarniadau ar gyfer blwyddyn ariannol 2025 i 2026.

---

<sup>14</sup> [Datganiad Ysgrifenedig: Setliad Llywodraeth Leol Terfynol 2024-25 \(27 Chwefror 2024\) | GOV. CYMRU](#)

<sup>15</sup> [Datganiad Ysgrifenedig: Setliad Terfynol Llywodraeth Leol 2024-25 \(27 Chwefror 2024\) | LLYW.CYMRU](#)

**Atodiad 1. Cynigion drafft ar gyfer blwyddyn ariannol 2025 i 2026 ar gyfer aelodau etholedig prif gynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol.**

**Tabl 9. Lwfansau Arfaethedig 2025 i 2026 ar gyfer Aelodau Prif Gynghorau**

| Sefydliad               | Rôl                                             | Cyflog 2024 - 2025 | Cyflog Drafft 2025 i 2026 | Gwahaniaeth (£) | Gwahaniaeth (%) |
|-------------------------|-------------------------------------------------|--------------------|---------------------------|-----------------|-----------------|
| Prif Gynghorau (Grŵp A) | Band 1 – Arweinydd                              | £69,998            | £74,141                   | £4,143          | 5.95            |
|                         | Band 1 – Dirprwy Arweinydd                      | £48,999            | £51,899                   | £2,900          | 5.95            |
|                         | Band 2 – Aelod Gweithredol / Aelod o'r Cabinet  | £41,999            | £44,485                   | £2,486          | 5.95            |
| Prif Gynghorau (Grŵp B) | Band 1 – Arweinydd                              | £62,998            | £66,727                   | £3,729          | 5.95            |
|                         | Band 1 – Dirprwy Arweinydd                      | £44,099            | £46,709                   | £2,610          | 5.95            |
|                         | Band 2 – Aelod Gweithredol / Aelod o'r Cabinet  | £37,799            | £40,036                   | £2,465          | 5.95            |
| Prif Gynghorau (Grŵp C) | Band 1 – Arweinydd                              | £59,498            | £63,020                   | £3,522          | 5.95            |
|                         | Band 1 – Dirprwy Arweinydd                      | £41,649            | £44,114                   | £2,465          | 5.95            |
|                         | Band 2 – Aelod Gweithredol / Aelod o'r Cabinet  | £35,699            | £37,812                   | £2,113          | 5.95            |
| Prif Gynghorau (Pawb)   | Cyflog Sylfaenol – Cynghorydd                   | £18,666            | £19,771                   | £1,105          | 5.95            |
|                         | Band 3 – Cadeirydd Pwyllgor*                    | £27,999            | £29,657                   | £1,658          | 5.95            |
